

Ysbrydoli ffermwyr i ddiogelu priddoedd

Mae **PROSOILplus** yn cefnogi ffermwyr i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu arferion rheoli pridd arloesol. Mae'r arferion arloesol hyn yn gysylltiedig â gweithgareddau ymchwil IBERS ar gyfer dilysu gwyddonol.

Mae'r gweithgareddau ymchwil a gynhelir yn IBERS yn Aberystwyth yn canolbwyntio ar nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â rheoli pridd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella stoc carbon ym mhriddoedd Cymru
- Lleihau dŵr ffo ar yr wyneb a'r perygl o lifogydd
- Cynnal cynhyrchiant gan ddiogelu tirwedd Cymru ar yr un pryd.

Taflen Wybodaeth 3

Ymdreiddiad Dŵr



Beth yw ymdreiddiad dŵr?

- Mae ymdreiddiad dŵr yn fesur o gyfradd treiddiad dŵr glaw i mewn i bridd a thrwyddo
- Gall dŵr a amsugrir gan y pridd gael ei amsugno gan wreiddiau planhigion neu basio drwy haenau uwch y pridd i lawr tuag at y lefel trwythiad.


Pam mae angen inni feddwl am ymdreiddiad dŵr?

- Mae cyfraddau ymdreiddiad dŵr yn ddangosydd da o iechyd pridd

- Mae priddoedd na allant amsugno digwyddiadau glawogydd trwm yn arwain at ddŵr ffo a cholli pridd a maetholion i gyrsiau dŵr
- Mae priddoedd gwlyb yn cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer pori ac yn byrhau'r tymor pori
- Gyda nifer gynyddol o ddigwyddiadau glawogydd uchel, bydd angen cynyddu capasiti priddoedd Cymru i ddal dŵr er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Beth mae canlyniadau prosiect PROSOILplus wedi'u dangos hyd yma?

- Mae gan leiniau o feillion cochion a gwynion gyfraddau ymdreiddiad dŵr sylweddol uwch o'u cymharu â rhygwellt
- Mae gan leiniau o sicori a llyriad (*plantain*) gyfraddau ymdreiddiad dŵr sylweddol uwch o'u cymharu â rhygwellt



Beth allaf ei wneud ar fy fferm i?

- Gwirio cywasgiad priddoedd – mae amrywiol atebion mecanyddol posibl yn seiliedig ar ddyfnder, yn cynnwys holltwyr tir pori a chodwyr porfa.
- Gwirio niferoedd mwydion yn y priddoedd – mae mwydion yn awyru pridd yn naturiol wrth iddynt dyrchu drwy broffil y pridd
- Manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio meillion cochion a gwynion
- Ystyried defnyddio mwy ar wyndonnydd amlrywogaeth